**DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG / WRITTEN STATEMENTS OF OPINION**

**A GYFLWYNWYD / TABLED ON 17/03/2003**

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
R Signifies the Member has declared an interest

# OPIN-2003-0005 Ail Ambiwlans Awyr i Gymru/Second Air Ambulance for Wales

17 Mar 2003 Raised by Elin Jones

No Subscribers

*Ail Ambiwlans Awyr i Gymru*

*Mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod gwasanaeth pwysig yr Ambiwlans Awyr yn ceisio sicrhau fod cleifion ym mhob cwr o Gymru o fewn cyrraedd rhesymol i driniaeth brys angenrheidiol mewn ysbytai arbenigol. Mae'n wasanaeth sy'n arbed bywyd. Mae'r Cynulliad yma yn cefnogi'r angen am Ail Ambiwlans Awyr i Gymru ac yn annog y Weinyddiaeth Amddiffyn i ryddhau tir ar eu maes awyr yn Llanbedr, Meirionnydd ar gyfer y posibilrwydd o leoli ail Ambiwlans Awyr.*

*Second Air Ambulance for Wales*

*This Assembly acknowledges the important service provided by the Air Ambulance in ensuring that patients across Wales are within reasonable reach to necessary emergency treatment in specialist hospitals. The service saves lives. This Assembly supports the need for a Second Air Ambulance in Wales and encourages the Ministry for Defence to release land at their air base in Llanbedr, Meirionnydd as a possible location for the Second Air Ambulance.*

# OPIN-2003-0001 Rheoleiddio Contractau Fferyllol/ Regulation of Pharmacy Contracts

07 Feb 2003 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther FRCGP, David Melding, Lynne Neagle, Kirsty Williams

20 Subscribers:

Peter Rogers
Ann Jones
Elin Jones
Eleanor Burnham
Nicholas Bourne LLB LLM
David Jones
Alun Cairns
David Davies
William Graham JP
Gareth Jones
Huw Lewis
Jonathan Morgan LLB MSc FRSA
Gwenda Thomas
Alison Halford
Glyn Davies
Brian Hancock
Rhodri Glyn Thomas
Peter Black
Janet Ryder
Owen John Thomas MA

*Rheoleiddio Contractau Fferyllol*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pryderu y bydd argymhellion yr adroddiad diweddar gan y Swyddfa Masnachu Teg am reoleiddio contractau fferyllol yn tanseilio'r rhwydwaith gwerthfawr o fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru:*

*- am nad ydynt yn rhoi unrhyw ystyriaeth i'r gofal o ansawdd uchel a gynigir i gleifion gan fferyllfeydd cymunedol lleol;*

*- am y byddant yn tanseilio gweledigaeth greiddiol y Cynulliad yn ei Strategaeth Fferylliaeth, sef gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y claf;*

*- am y byddant yn arwain at gau fferyllfeydd cymunedol lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd sydd o dan anfantais;*

*- am y byddant yn golygu na fydd gwasanaethau fferyllol lleol ar gael yn hwylus i gleifion llai cefnog a chleifion sy'n cael anhawster symud.*

*Regulation of Pharmacy Contracts*

*The National Assembly for Wales is concerned that the recommendations of the recent Office*

*of Fair Trading Report into the regulation of pharmacy contracts will undermine the highly valued network of community pharmacies in Wales because they:*

*- pay no regard to the provision of high quality patient care by local community pharmacies;*

*- undermine the patient centred services at the heart of the Assembly's Pharmacy Strategy;*

*- will lead to the closure of local community pharmacies especially in rural and disadvantaged areas;*

*- will lead to the exclusion of less well off and less mobile patients from local pharmacy services.*